



Coleg y
Cymoedd

Swyddog Hwb Rygbi a Swyddog Lles Egnïol

Pecyn Recriwtio

Gorffennaf 2022

Croeso

Diolch am eich diddordeb yn y rôl hon. Dylech ddod o hyd i'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yma, yn ogystal ag arweiniad ar sut i wneud cais. Fodd bynnag, os oes unrhyw beth arall yr hoffech ei wybod, cysylltwch â ni i drefnu sgwrs.

Crynodeb O'r Swydd

Bydden ni wrth ein bodd ichi ddod i'n nabod ni a'r rôl y mae diddordeb gennych ynddi. Y pethau pwysig i gychwyn...



Teitl y Swydd

Swyddog Hwb Rygbi a
Swyddog Lles Egnïol



Oriau Gweithio

37 awr yr wythnos



Math o Swydd

Llawr amser, CCP tan
Awst 2025



Eich Cyflog

£22,635 - £24,321



Dyddiad Cau


18fed Awst 2022



Lleoliad

Campws Nantgarw

Efallai y bydd angen teithio ar draws
y campysau fel rhan o'r rôl hon



Pam Coleg y Cymoedd?

Amdanom Ni

Ffurfiwyd Coleg y Cymoedd yn 2013. Mae dros 10,000 o ddysgwyr yn astudio yng Ngholeg y Cymoedd bob blwyddyn ac mae gennym gampysau yn Aberdâr, Nantgarw, Rhondda ac Ystrad Mynach.

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o gyrsiau Llawn Amser a Rhan Amser o gyrsiau Lefel Mynediad i rai Lefel Gradd mewn dros 15 o feysydd y cwricwlwm.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda thros 800 o gyflogwyr, mae tîm Gwasanaethau Busnes y Coleg yn cynnig amrediad eang o Brentisiaethau a phecynnau Hyfforddiant Masnachol Pwrpasol.

Buddsoddodd y coleg yn sylweddol yn ystod y blynnyddoedd diweddar yn cynnwys adeilad Campws Nantgarw (campws gwerth £40 miliwn), campws Aberdâr (campws gwerth £22 miliwn), a Chyfleusterau heb eu hail ym maes Hyfforddi Gwaith Rheilffordd a Thrin Moduron.

Ein Datganiad Cenhadaeth

'Eich llwyddiant yn y dyfodol yw'n cenhadaeth'

Ein Gwerthoedd

- > Mae ein ffocws ar y dysgwyr.
- > Rydyn ni'n ymdrechu am berfformiad uchel.
- > Rydyn ni'n gwerthfawrogi pawb ac yn buddsoddi ynddyn nhw.
- > Rydyn ni'n ceisio gwelliant parhaus.
- > Rydyn ni'n uchelgeisiol, rydyn ni'n gwranddo a chydweithredu.
- > Rydyn ni'n datblygu partneriaethau cadarn ac effeithiol.

Ein Gweledigaeth

I ddysgwyr, staff, busnes a chymunedau ein cydnabod yn goleg rhagorol.

Rydyn ni'n annog ein dysgwyr, staff a'n rhanddeiliaid allanol i anelu'n uchel ac i fod yn falch o gael dweud bod astudio yng Ngholeg y Cymoedd wedi helpu i ysbrydoli ein dysgwyr ac i drawsnewid eu bywydau.

Y Manteision

Cyflog



Rydyn ni'n ymfalchïo ein bod yn cynnig cyflog cystadleuol yn y sector addysg bellach.

Datblygiad



Mae eich datblygiad yn bwysig inni. Rydyn ni'n cynnig cyfleoedd rhagorol ar gyfer datblygiad gyrfaol a phersonol. Hefyd, rydyn ni'n cynnig dysgu am ddim ichi ar gyrsiau a ariennir gan y coleg a hyd yn oed y cyfle ichi ddysgu Cymraeg! Da iawn.

Eich Iechyd



Efallai na fyddwch ei angen byth, ond does neb yn gwybod yr hyn sydd rownd y gornel. Rydyn ni'n cynnig Rhaglen Cymorth Cyflogai ynghyd â Darpariaeth gwych o ran lechyd Galwedigaethol.

Y Tymor Hirach:



O gychwyn gyda ni, gallwn eich cofrestru ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Cadw'n Ffit



Mae ffitrwydd corfforol a meddyliol yn bwysig, ac felly rydyn ni'n cynnig y defnydd o gampfa Nantgarw ac Ystrad Mynach am ddim yn ogystal â disgownt ar aelodaeth o gyfleusterau hamdden. Os nad ydych am ddefnyddio campfa, rydyn ni'n cynnig Cynllun Seiclo i'r Gwaith.

Cymryd Seibiant



Rydyn ni'n deall bod angen seibiant arnoch chi weithiau. Rydyn ni'n cynnig yr hawl i Wyliau Blynyddol hael. Hefyd, mae gennym faes parcio am ddim ar gyfer yr holl staff a chynllun rhannu ceir.

Eich Bywyd Cartref



Weithiau, mae pethau'n newid ac rydyn ni am gynorthwyo hynny. Rydyn ni'n cynnig cyfres lawn o bolisïau i gynorthwyo cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Hefyd, rydyn ni'n cynnig Talebau Gofal Plant er mwyn sicrhau bod eich plant bach yn cael gofal da.

Swydd Ddisgrifiad

Swyddog Hwb Rygbi a Swyddog Lles Egnïol

Gweithio fel rhan o dîm arloesol sy'n cefnogi myfyrwyr ym mhob agwedd ar Les. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymdrechu i gyflwyno ystod eang ac amrywiol o gyfleoedd a phrofiadau allgyrsiol i'n myfyrwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu'r sgiliau a fydd yn eu helpu i ddod yn ddinasyddion iach a gweithgar sy'n barod i symud ymlaen i Addysg Uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Bydd elfen Swyddog Hwb y rôl yn gofyn i chi hybu rhaglenni cyfranogi sy'n recriwtio neu'n cadw cyfranogwyr o fewn maes rygbi ar ôl 16 oed.

Dyletswyddau Allweddol

- Gan hefyd gyfrannu at ddatblygiad ehangach rygbi o fewn ysgolion bwydo cysylltiedig, gan gynnwys datblygu hyfforddwyr, dyfarnwyr, gweinyddwyr a gwirfoddolwyr, gyda chysylltiadau sefydledig â darpariaeth clybiau/clystyrau a chymunedau.
- Byddwch yn cydweithio yn y rôl drawsadrannol, drawsgampws hon i alluogi'r dysgwyr i gyflawni eu potensial drwy ymgysylltiad a chyfranogiad gweithredol.
- Bydd y rôl hefyd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r meysydd allweddol sy'n gysylltiedig â champysau'r coleg.
- Bydd cyfrifoldeb dros hyrwyddo ac annog cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol ymhlith cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.
- Drwy'r gweithgareddau hyn a gweithgareddau eraill, bydd yr unigolyn yn cyfrannu at gynllun strategol Coleg y Cymoedd o ran cyrhaeddiad academaidd, ymgysylltiad a chyfoethogi myfyrwyr; i ddatblygiad rygbi'r undeb yn ehangach o fewn lleoliad y Coleg; ac i iechyd a lles y gymuned y mae lleoliad y Coleg ynddi.
- Darparu a chynorthwyo â datblygu, dysgu a chyflwyno cyfleoedd i bawb yn y gymuned AB
- Cefnogi amcanion y Coleg fel codi safonau cyrhaeddiad academaidd, cyfoethogi ac ymgysylltu â myfyrwyr, cydlyniant cymunedol, a recriwtio myfyrwyr.
- Gweithio gyda myfyrwyr, staff a phartneriaid allanol i godi proffil lles egnïol.
- Casglu a chynnal data o'r fath fel sy'n ofynnol ar gyfer monitro effeithiolrwydd y gwahanol raglenni, ac adrodd hyn i Undeb Rygbi Cymru neu roi diweddariad, yn ôl y gofyn.
- Gweithio gyda staff a myfyrwyr gydag angerdd, egni a brwdfrydedd i sefydlu grŵp o Lysgenhadon Chwaraeon
- Amlygu, a lle bo'n briodol, gwneud cais am gyfleoedd ariannu i wella'r strategaeth lles egnïol yn y coleg
- Gwellu ansawdd a darpariaeth gweithgarwch i wella lles emosiynol a chorfforol cymuned y coleg
- Hyrwyddo a chynnig cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i bob dysgwr.
- Cyflwyno neu gynorthwyo â chyflwyno rygbi'r undeb i ddynion a menywod.
- Gweithio gyda staff a myfyrwyr gydag angerdd, egni a brwdfrydedd i sefydlu grŵp o Lysgenhadon Chwaraeon
- Trefnu a chydlyn cyflwyno gweithgarwch corfforol mewn amrywiaeth o ffyrdd: ar-lein, achlysurol, cymdeithasol, dan arweiniad hyfforddwr ac wedi'i strwythuro'n gystadleuol.
- Atgyfnerthu'r gwaith gyda dysgwyr llai egnïol, menywod a merched / anabled / ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig a chefnidiroedd lleiafrifoedd ethnig
- Creu gweithlu egnïol sy'n addas ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol
- Datblygu pobl ifanc fel arweinwyr a gwirfoddolwyr (rhaglen Arweinwyr Rygbi Undeb Rygbi Cymru a chyfleoedd perthnasol eraill).
- Mynd ati i hyrwyddo manteision gweithgarwch corfforol a dewisiadau ffordd iach o fyw i fyfyrwyr a'u cefnogi gyda newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw
- Cyflwyno ac arwain sesiynau o weithgarwch corfforol

Dyletswyddau Allweddol

- Datblygu potensial chwaraeon
- Llunio, cyflwyno neu hwyluso cyflwyno rhaglenni cwbl gynhwysol o rygbi a gweithgareddau chwaraeon cyffredinol sy'n ennyn diddordeb myfyrwyr o bob gallu ac o bob cefndir.
- Sefydlu perthynas gadarnhaol gydag unigolion a grwpiau o fyfyrwyr i ennyn diddordeb a chynyddu cyfranogiad mewn sesiynau rheolaidd o weithgarwch / chwaraeon
- Codi proffil a dathlu cyflawniadau cymunedau ein coleg
- Annog a chefnogi dynion a menywod i bontio i glybiau cymunedol lleol, clystyrau, neu gynigion amgen, fel y bo'n briodol.
- Cefnogi'r Coleg, clwb/clystyrau cymunedol lleol ac i ddatblygu a chynnal amgylchedd cwbl gynhwysol a phriodol i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn rygbi, gan gynnwys ac yn enwedig drwy addysgu a datblygu hyfforddwyr, dyfarnwyr a gwirfoddolwyr.
- Cefnogi'r Grŵp Llywio Hwb Lleol i ddatblygu amcanion a thargedau ar gyfer y rhaglen Hwb, fel y bo'n briodol, a gweithio tuag at gyflawni'r rhain.
- Datblygu sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd, cyfathrebu effeithiol, a marchnata gweithgareddau'r coleg.

Dyletswyddau Ychwanegol

- Cefnogi Undeb Rygbi Cymru i gyflawni ei amcanion ar gyfer datblygu rygbi, yn ystod y tymor a thu hwnti'r tymor, gan gynnwys drwy:
- Gefnogi rhaglenni datblygu rygbi ar sail leol, ranbarthol a chenedlaethol, yn ôl y gofyn
- Cefnogi trefnu a chyflwyno unrhyw raglen hyfforddi / prentisiaeth Undeb Rygbi Cymru o fewn ardal y lleoliadau addysgol
- Mynychu sesiynau hyfforddi Undeb Rygbi Cymru, cyrsiau ac ati, yn ôl y gofyn, gyda'r bwriad o ddilyn rhaglen bersonol o ddatblygiad proffesiynol parhaus

Gwybodaeth Bellach

Cyfrannu at ddatblygu a chynnal amgylchedd gwaith diogel a chynhwysol ym mhob man gwaith, gan gynnwys drwy gydymffurfio â pholisïau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, cydraddoldeb, diogelu, cyfrinachedd, cyfryngau cymdeithasol a diogelu data (yn unol â gofynion Undeb Rygbi Cymru a lleoliadau addysgol)

Cydnabyddir y gall dyletswyddau a chyfrifoldebau pob swydd newid o bryd i'w gilydd a gellir diwygio disgrifiadau swydd mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd i adlewyrchu'r newidiadau hynny sy'n gymesur â'r rôl.

Manyleb Person

	Hanfodol	Dymunol	Asesiad
Mae gradd israddedig mewn hyfforddi chwaraeon		✓	Ffurflen Gais
Cymhwyster hyfforddi lefel 2 gan symud ymlaen i lefel 3.	✓		Ffurflen Gais
Mae cymhwyster hyfforddwr ffitrwydd lefel 2		✓	Ffurflen Gais
Profiad hyfforddi a datblygu profedig (o leiaf 3 blynedd).	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Profiad o ddadansoddi, defnyddio data ac adrodd ar berfformiad.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Profiad o weithio mewn campfa/amgylchedd ffitrwydd		✓	Ffurflen Gais
Gwybodaeth eang am TG a chymhwysedd wrth ddefnyddio pecynnau TG perthnasol.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Y gallu i weithio'n dda o dan bwysau drwy flaenoriaethu tasgau'n effeithiol.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Dull hyblyg gan gynnwys gweithio ar draws y campws. Ymagwedd gadarnhaol a deinamig at newid.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Trefnydd rhagorol sy'n gallu amldasgio.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Y gallu i ddangos menter.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Y gallu i gyfathrebu ar draws ystod o lefelau a gweithgarwch ymgysylltu	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Y gallu i siarad Cymraeg neu barodrwydd i ddysgu.		✓	Ffurflen Gais a Chyweliad
Y gallu i deithio'n effeithiol rhwng safleoedd a lleoliadau allanol.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Dull cadarnhaol a deinamig o newid	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Dangos addasrwydd i weithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Y gallu i ddefnyddio systemau TG a phecynnau meddalwedd poblogaidd (Word, Excel ac ati)	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Y gallu i gynnal effeithiolrwydd mewn amgylchedd dan bwysau a throi cyfleoedd yn gynlluniau gweithredu.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Arddangos agwedd broffesiynol, diplomyddiaeth a'r gallu i ymdrin â sefyllfaoedd anodd.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Bod yn gydweithiwr dibynadwy a oedd yn ymwneud â chyfoedion a'r holl staff eraill yn barchus, yn bwrpasol ac yn gadarnhaol.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Hyderus, brwdfrydig, egnïol.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad
Yn deall ac yn ymrwymo i Gyfle Cyfartal.	✓		Ffurflen Gais a Chyweliad

Manyleb Person

[illegible]

'Rwy'n mwynhau fy rôl fel Swyddog Lles a Llesiant yn fawr, ac mae cysylltu â dysgwyr, a'u hwyluso i fod yr hyn maen nhw'n dymuno bod mor werth chweil. Yng ngeiriau'r gwyh Carl Rogers, "Mae pobl fel planhigion, o gael yr amodau cywir byddant yn ffynnu" '

Carolyn Owen

Swyddog Llesiant a Lles

'Mae ymgysylltu â staff a dysgwyr a'u gweld yn datblygu i'w llawn botensial yn rhoi boddhad mawr. Mae'r rôl yn hyblyg ac nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Mae Coleg y Cymoedd yn lle gwyh i weithio, lle rydyn ni i gyd yn cefnogi ein gilydd i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael profiad dysgu rhagorol.'

Tracey Evans

Pennaeth Ysgol (Arlwy, Gwallt a Harddwch)

Sut I Wneud Cais (Proses Gwneud Cais)

Beth Nesaf?

Bellach, dylech chi wybod mwy amdanom ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud. Hefyd, dylai fod gennych chi ddealltwriaeth dda o'r rôl hon a'r math o berson rydyn ni'n chwilio amdanynt. Os ydy hyn yn swnio fel disgrifiad ohonoch chi, yna byddem wrth ein bodd pe baech yn gwneud cais.

Yn syml, lawrlwythwch y ffurflen gais a llenwch yr holl feysydd gofynnol

Lawrlwytho Ffurflen Gais

Anfon ceisiadau wedi'u cwblhau:

✉ jobs@cymoedd.ac.uk

Cofiwch ddefnyddio'r **Fanyleb Person a'r Swydd Ddisgrifiad** i ddangos i ni pam mai chi yw'r ymgeisydd gorau ar gyfer y swydd

Unwaith y bydd y cais wedi'i lenwi a'ch bod chi'n hapus, dim ond un peth sydd ar ôl i'w wneud a dyna'i drosglwyddo i ni yn y cyfeiriad e-bost uchod - Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ei ddarllen!

Cofiwch, **nid ydym yn derbyn CV**. Os byddai'n well gennych, gallwch bob amser anfon eich cais wedi'i gwblhau at:

Pobl a Diwylliant
Coleg y Cymoedd
Campws y Rhondda
Tonypandy
CF40 2TQ

Eisiau Sgwrsio

Mae Coleg y Cymoedd yn lle unigryw a chyffrous i weithio. Efallai bod y rôl hon yn ffit perffaith i chi. Os hoffech chi sgwrsio trwy unrhyw gwestiynau neu ddod i'n hadnabod yn well, cysylltwch heddiw:

**Ceisiadau / Rhagor o
Wybodaeth:**

✉ jobs@cymoedd.ac.uk

☎ 01443 653626



INVESTORS IN PEOPLE®
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in people Gold

Rydym wedi llwyddo!
Achredwyd yn swyddogol gan Buddsoddwyr mewn Pobl.
Oherwydd rydym yn gwella gwaith.

We did it!
Officially accredited by Investors in People.
Because we make work better.

Telerau Ac Amodau

Cydraddoldeb Ac Amrywiaeth

Rydyn ni'n cydnabod manteision gweithlu amrywiol – rydyn ni'n ystyried ein hunain i fod yn gyflogwr o ddewis ac wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu yn y gweithle.

Euogfarnau Troseddol

Mae sefydliadau addysg yn y DU wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob ymgeisydd roi gwybod i'r coleg am unrhyw gollfarnau sydd wedi'u disbyddu ac sydd heb eu disbyddu ar eu ffurflen gais ac wrth lenwi ffurflen Datgelu a Gwahardd. Gall methu â darparu'r wybodaeth hon arwain at ddiswyddo. Ceir gwiriad rhestr 99 hefyd ar gyfer unrhyw un a fydd yn gweithio gyda dysgwyr neu'n dod i gysylltiad â dysgwyr, a rhaid i'r coleg ei dderbyn cyn y gall y gyflogaeth ddechrau.

Diogelu Data

Bydd unrhyw ddata amdanoch yn cael ei gadw'n ddiogel, gyda mynediad wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n delio â'ch cais yn y broses dethol. Drwy lofnodi a chyflwyno'ch ffurflen gais, rydych yn caniatáu i'ch data gael ei brosesu.

Hawl i Weithio yn y DU

Mae Adran 8 Deddf Lloches a Mewnfudo 2008 yn ei gwneud yn drosedd i gyflogwr gyflogi gweithiwr newydd y mae ei statws yn atal y gweithiwr rhag cael gwaith. Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, gofynnir ichi gyflwyno tystiolaeth dogfennol wreiddiol a chyfredol o'ch hawl i weithio yn y DU.